# Y CRE YNG NGHYMRU

## IONAWR – RHAGFYR 2000



CHERRY SHORT
Cadeirydd, Pwyllgor
CRE Cymru



RAY SINGH
Aelod, Pwyllgor
CRE Cymru

Mae Cymru yn gymanwlad o gymunedau sy'n cynnwys un o'r poblogaethau hynaf o leiafrifoedd ethnig yng ngwledydd Prydain. Y rhan fwyaf o'r amser, mae'r cyfoeth o wybodaeth a phrofiad ymhlith y cymunedau hyn yn cyfrannu at agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth. Ond, mae yna adegau pan fydd melltith senoffobia yn ymddangos – gan arwain at aflonyddu hiliol, hiliaeth sefydliadol, a hyd yn oed at lofruddiaeth.

Mae gan CRE Cymru ran hollbwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at weledigaeth a datblygiad gwleidyddol, economaidd a diwylliannol cenedl sy'n prysur newid – trwy weithio mewn partneriaeth agos â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

### Gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Deddf Llywodraeth Cymru – a'r strategaeth dair blynedd, Cymru Well (2000) – yn mynnu bod gan bob dinesydd statws cydradd a mynediad teg at adnoddau a gwasanaethau. Y nod yw sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn dod i'r amlwg, yn y Cynulliad a thu hwnt, fel ffordd o drawsnewid cysylltiadau cymdeithasol a chreu adeileddau sefydliadol nad ydynt yn wahaniaethol. Er enghraifft, mae'r Cynulliad yn disgwyl bod ei holl adrannau yn sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn rhan o'u trefniadau Gwerth Gorau. Bu CRE Cymru yn gweithio gyda'r Cynulliad, trwy gyfrwng yr Uned Polisi Cydraddoldeb (EPU), i gloriannu effaith polisïau ac arferion ym meysydd adfywio, cynhwysiant cymdeithasol, a monitro i ba raddau y ceir cydraddoldeb hiliol.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn ymateb i nifer o ddogfennau ymgynghorol, ar draws rhychwant y meysydd pwnc datganoledig.

### Archwilio polisïau sylfaenol

Bu swyddogion CRE yn cynorthwyo'r EPU i archwilio sut yr oedd pob un o 57 adran y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb yn eu polisïau a'u harferion. Casgliad yr arolwg oedd fod lefelau ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal yn gyson uchel a bod peth arferion da. Ond, y casgliad oedd bod llawer iawn o waith ar ôl i'w wneud, yn enwedig ym maes hyfforddiant, er mwyn newid gwerthoedd, credoau ac agweddau. Argymhellai'r arolwg y dylai'r Cynulliad ledio'r ffordd o ran dod â'r mater i'r amlwg. Croesawyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal ac argymhellwyd y dylai'r EPU weithio gyda'r CRE i weithredu'r prif argymhellion.

### Ymchwiliad Stephen Lawrence – Gweithgor Addysg

Gwahoddwyd carfan o wirfoddolwyr i ffurfio gweithgor i ystyried sut y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ledio'r ffordd wrth ymdrin â hiliaeth sefydliadol. Y nod oedd gweithredu argymhellion yr Adroddiad ar Ymchwiliad Stephen Lawrence, yn enwedig yr argymhellion ynghylch addysg, sef maes sy'n achos cryn bryder ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Bu'r CRE â rhan gadarn yng ngwaith y Gweithgor Addysg. Gwnaed yr argymhellion allweddol hyn:

- dylai cyfoethogi'r cwricwlwm fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm cyfan, ac nid yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu
- dylai'r cyfeiriadau at amrywiaeth hiliol a diwylliannol fod yn fwy eglur yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), a dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'w statws statudol yn 2002
- dylid gwneud AALlau ac ysgolion yn ymwybodol o ddeunyddiau ac adnoddau yn anelu at werthfawrogi amrywiaeth diwylliannol a rhwystro hiliaeth sydd ar gael gan RECau a sefydliadau gwirfoddol lleiafrifoedd ethnig
- dylai pob ysgol dderbyn copi o *Dysgu i*




◀ Un o argymhellion y Gweithgor Addysg oedd y dylai ysgolion yng Nghymru ddilyn ymdriniaeth ysgol gyfan i gyfoethogi'r cwricwlwm, a pheidio â thrin cydraddoldeb hiliol fel ystyriaeth ar wahân

*Bawb*, sef cyfrol safonol CRE ar gyfer cydraddoldeb hiliol mewn ysgolion

- dylai Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru baratoi canllawiau ar gyfer y Fframwaith ABCh, i gynghori athrawon sut i gynnwys cyfleoedd cydraddoldeb yn y cwricwlwm
- dylid paratoi taflenni sy'n tynnu sylw athrawon at rwymedigaethau cyfreithiol ysgolion
- dylai cyngor fod ar gael ynghylch datblygu polisïau i ymdrin ag aflonyddu hiliol.

Mae taflen am ymddygiad hiliol, a pham fod hynny'n annerbyniol, yn cael ei chyhoeddi ar gyfer plant ac mae'r Cynulliad yn casglu gwybodaeth am ddigwyddiadau hiliol a gofnodir. Cesglir y wybodaeth yn flynyddol a bydd awdurdodau addysg lleol yn ei chyhoeddi. Mae'r gweithgor wedi cymeradwyo'r gwaith a wneir gan Estyn, y corff sy'n arolygu ysgolion yng Nghymru, i annog ymwybyddiaeth o gydraddoldeb hiliol mewn ysgolion.

## Penodiadau cyhoeddus

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am bron i 600 o benodiadau i 143 corff cyhoeddus. Yn 1999, un y cant o benodiadau cyhoeddus oedd yn aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Y nod yw cynyddu'r gyfran hon ac, yn achos cyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu cymunedau â phoblogaethau mawr o leiafrifoedd ethnig, adlewyrchu hynny.

Bu CRE Cymru yn rhan o'r ymgynghori ynghylch hyn a gwnaed nifer o argymhellion, yn amrywio o wahanol ddulliau o hysbysebu penodiadau a hyfforddi dewiswyr i gynlluniau mentor ar gyfer darpar ymgeiswyr.

## O'r Cyrion.

Bu Edwina Hart AC, y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a phennaeth CRE Cymru, yn rhoi cyflwyniadau adeg lansio'r adroddiad, *O' Cyrion i'r Canol: Asesu'r angen am strategaeth tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru*. Daeth 200 o bobl i'r digwyddiad, o gymdeithasau tai a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r adroddiad yn argymell:

- y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gadw at ymdriniaeth strategol wrth adnabod a bodloni anghenion tai lleiafrifoedd ethnig, fel rhan o'r strategaeth dai gyffredinol yng Nghymru
- dylid comisiynu rhagor o waith ymchwil, wedi'i gyd-drefnu ar lefel Cymru gyfan gan y Cynulliad, i amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, a sut mae'r amgylchiadau hyn yn effeithio ar eu hanghenion tai
- dylai awdurdodau lleol weithio gyda landlordiaid cymdeithas cofrestredig (RSL) i lunio proffeil o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn eu hardaloedd
- dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi ystyriaeth i anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig wrth bennu safonau dylunio ar gyfer tai cymdeithasol

Ray Singh, Comisiynydd CRE, gyda Zenda Azhar o REC Y Cymoedd adeg ail-lansio CRE Cymru. ▼



- dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried sefydlu RSL dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig.




Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi prosiect i archwilio'r achos dros sefydlu RSL dan arweiniad lleiafrifoedd ethnig. Bu'n ymateb hefyd i'r argymhelliad i gynnal rhagor o waith ymchwil.

## Henuriaid lleiafrifoedd ethnig

Lansiwyd adroddiad *Gobaith a Gofal: Yr henoed o leiafrifoedd ethnig a chroenddu yng Nghymru* mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol, y Sefydliad Ymchwil Polisi ar Heneiddio ac Ethnigrwydd (PRIAE), a'r CRE. Bu pennaeth CRE Cymru, ynghyd â Jane Hutt AC, y Gweinidog Iechyd, yn rhoi anerchiadau pwysig yn y digwyddiad.

Dyma brif argymhellion yr adroddiad:

- comisiynu cynllun datblygu sy'n disgrifio cyfeiriad gofal am henuriaid lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn y dyfodol
- cyflwyno monitro ethnig ar unwaith ym meysydd iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol
- ymgymryd ag ymchwil ar anghenion henuriaid lleiafrifoedd ethnig – er enghraifft ar hyn o bryd nid ydym hyd yn oed yn gwybod faint sy'n derbyn gofal preswyl a gofal nyrsio.

Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymateb i'r adroddiad hyd yn hyn, ond mae PRIAE wedi gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol weithio gyda'r sefydliad i fwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion.

## *Dysgu i Bawb*

Cafodd Dysgu i Bawb, sef dogfen safonol y CRE ar gyfer cydraddoldeb hiliol mewn ysgolion, ei lansio yn Llandrindod, ym mis Gorffennaf 2000. Daeth tua 70 o addysgwyr ynghyd o bob rhan o Gymru, ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Estyn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafwyd cyflwyniadau gan gomisiynydd y CRE, Cherry Short a phennaeth CRE Cymru. Cefnogwyd y safon gan y Gweinidog Addysg, Rosemary Butler, a ysgrifennodd ragair y ddogfen, er mwyn rhoi cyd-destun Cymreig.

Cynhaliwyd sesiynau gweithdy yn ystod y diwrnod, i drafod gweithredu'r safon a chydymffurfio â'r Fframwaith Cwricwlwm ac Arolygu newydd yng Nghymru.

# Gweithio gyda'r sector cyhoeddus

## Her Arweiniad

Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr pwysig yng Nghymru a bu'r CRE yn rhoi blaenoriaeth i hyrwyddo Her Arweiniad i'r sector hwn yn ystod 2000. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd sefydliadau megis Prifysgol Caerdydd ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn ymuno â'r fenter, a lansio'r cynllun i'w gweithwyr er mwyn iddynt ddod i ddeall a chefnogi'r gwaith a fyddai'n cael ei ddatblygu o ganlyniad. Ar hyn o bryd mae'r sefydliadau yn paratoi cynlluniau gweithredu, a fydd yn cael eu harolygu gan y CRE.

Yr oedd Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn lansiad Her Arweiniad Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Bu hi'n pwysleisio pa mor bwysig yw cydraddoldeb cyfle – nid yn unig o safbwynt iechyd pobl ond hefyd o ran adeiladu sefydliadau i gyflwyno gwasanaeth iechyd effeithiol yng Nghymru. Dywedodd Mr Dennis, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth: 'Gall penaethiaid sefydliadau ledio'r ffordd drwy sefydlu rhaglenni gweithredu ymarferol ar gyfer materion megis sicrhau cynrychiolaeth deg ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y gweithle sydd dan eu rheolaeth.'

## Cyfiawnder troseddol

Mae CRE Cymru yn parhau i ddatblygu ei waith gyda'r heddlu. Yn ystod 2000, buom yn cynnal cyfarfodydd gyda dau Brif Gwnstabl newydd heddluoedd Dyfed Powys

a Gwent i drafod gwaith yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol. Fe gytunodd y ddau Brif Gwnstabl i weithio mewn partneriaeth â'r CRE i gyflwyno strategaethau cydraddoldeb hiliol cadarn a fyddai'n mynd i'r afael ag argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence, yn ogystal â chanllawiau'r Swyddfa Gartref.

Mae heddlu De Cymru wedi parhau i ddatblygu mentrau cydraddoldeb hiliol yn unol â'r argymhellion hyn. Yn 2000, buont yn cefnogi Cymdeithas Heddlu Du trwy secondio rhywun i swydd cyd-drefnydd y gymdeithas, i gynorthwyo gydag aelodaeth, a chyda recriwtio swyddogion o leiafrifoedd ethnig.

Bu'r CRE hefyd yn cynorthwyo cangen De Cymru Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i gynnal seminar, gyda chynrychiolaeth dda, i roi gwybod i gymunedau lleiafrifoedd ethnig am waith y CPS a'r fframwaith cyfreithiol y mae'n gweithredu o'i fewn. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ers hynny gyda swyddogion CPS De Cymru a chytunwyd ar fanyleb waith ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth a chyflwyno gwasanaethau, i'w chyflawni mewn partneriaeth â CRE Cymru.

## Iechyd

Bu CRE Cymru a'r Sefydliad Polisi Ymchwil yn cynnal seminar ar y cyd ar Heneiddio ac Ethnigrwydd gan edrych ar anghenion henoed o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Daeth llawer o ymarferwyr i'r seminar, ynghyd â phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Dyma'r tro cyntaf i neb ymgynghori â hwy ynghylch eu hanghenion.

Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i weithio â'r Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu Fframwaith ar gyfer Gwella Iechyd. Bu'r CRE yn cynghori ynghylch rhaglenni gwella iechyd drafft a gyflwynwyd gan grwpiau iechyd lleol Cymru.

Buom hefyd yn darparu arweiniad a chymorth i Awdurdod Iechyd Gwent i ddatblygu strategaeth cydraddoldeb hiliol a gweithio gyda chyhoeddiad safonol y CRE ar gyfer cyflogwyr, *Racial Equality Means Business.* Bwriwyd ymlaen â'r gwaith hwn gydag Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent hefyd, a oedd newydd ymuno â'r Her Arweiniad.

## Llywodraeth Leol

Mewn ymateb i gais gan awdurdod lleol Dinas a Sir Abertawe am gymorth i lunio strategaeth cydraddoldeb hiliol, buom yn rhoi sylwadau ar bolisi drafft, sy'n cael ei ailysgrifennu gan y cyngor erbyn hyn.





▲ (Chwith) Dr Mashuq Ally, Pennaeth CRE Cymru, adeg lansio *Dysgu i Bawb*, gyda Kaye Quinn o Gyngor Torfaen, Ingrid Wilson o Brosiect ROOTS Casnewydd, a chomisiynydd y CRE Cherry Short. (De) gyda Rosemary Butler AC, Gweinidog Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd.

## Cefnogi'r sector preifat

Yr oedd 2000 yn flwyddyn lwyddiannus o ran tynnu sylw mentrau bychan a chanolig (SME) yng Nghymru. Gan mai SME yw dros 90 y cant o fusnesau yng Nghymru, yr oedd y daflen a gynhyrchwyd ar y cyd gan y tri chomisiwn cydraddoldeb, *Cyfle Cafartal yng Nghymru Mae'n Fusnes i Chi Hefyd*, yn ffordd bwysig o gynyddu ymwybyddiaeth o arferion da. Cynhyrchwyd 40,000 copi o'r daflen gyda nawdd gan Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), y Gwasanaeth Cyflogaeth, TUC Cymru, Cymdeithas Dai Cymru a Gorllewin Lloegr, TEC a Chwarae Teg.

Bu CRE Cymru, mewn partneriaeth â Bwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu (CITB) a'r WDA, yn cynnal seminar ar arferion da ym maes cydraddoldeb hiliol a'r ddeddfwriaeth bresennol o safbwynt SME yn y diwydiant adeiladu.

Llwyddwyd i hyrwyddo cyhoeddiad safonol y CRE ar gyfer cyflogwyr, *Racial Equality Means Business* (REMB) i Careerpaths, Cymdeithas Dai Cymru a Gorllewin Lloegr, Cymdeithas Dai Gofal a Chyngor Chwaraeon Cymru.

## Partneriaethau

Sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru yw'r cam amlwg, cyntaf yn natblygiad ymdriniaeth strategol i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb hiliol yng Ngogledd Cymru. Cefnogwyd y prosiect yn lleol gan nifer helaeth o sefydliadau statudol a gwirfoddol, a chafwyd nawdd datblygu gan CRE Cymru, yn ogystal ag arian grant gan



▲ CRE Cymru, mewn partneriaeth â NIACE a REC, yn lansio cynllun ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn Neuadd y Sir, Bae Caerdydd.

Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Cafwyd cefnogaeth i'r prosiect hefyd gan nifer o awdurdodau lleol a heddlu Gogledd Cymru.

Mae tîm y prosiect wedi datblygu proffeil o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys:

- cronfa wybodaeth gynhwysfawr, yn feintiol ac ansoddol
- gwybodaeth am brofiadau pobl o leiafrifoedd ethnig sy'n byw a gweithio yng Ngogledd Cymru; eu perthynas â chymunedau lleol eraill; a'u profiadau wrth ddefnyddio gwasanaethau lleol – gan gynnwys enghreifftiau o aflonyddu a gwahaniaethu ar sail hil
- y gwasanaethau statudol a gwirfoddol sydd ar gael ar hyn o bryd, a pha mor effeithiol ac agored ydynt i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig
- polisïau ac arferion asiantaethau allweddol wrth ymdrin â gwahaniaethu ar sail hil a darparu gwasanaethau i gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru
- Mae Cyngor Rhyng-grefyddol Cymru bellach yn cael ei hwyluso gan y CRE. Mae pob prif ffydd yn cael ei chynrychioli ar y Cyngor, gan gwrdd yn swyddfa'r CRE. Mae'r Cyngor wedi codi dau fater o bwys – sef hiliaeth yng nghefn gwlad, trwy gymunedau capel, a gwahaniaethu ar sail crefydd.

Lansiwyd y Rhwydwaith ym mis Rhagfyr 2000, dan gadeiryddiaeth Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, gyda chynrychiolaeth dda o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, sefydliadau statudol a gwirfoddol, a bron pob AC yng Ngogledd Cymru. Cafwyd cyflwyniad gan gomisiynydd y CRE, Cherry Short a phennaeth CRE Cymru.

## Cysylltu Cymunedau

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghorol dechreuol, wedi'i hwyluso gan CRE Cymru, gyda chadeiryddion a chyfarwyddwyr sefydliadau yn y sector gwirfoddol, i annog ceisiadau partneriaeth trwy gyfrwng rhaglen Cysylltu Cymunedau a Bwrdd Elusennau'r Loteri.

- Gwnaeth Mewn Cymru gais llwyddiannus i Fwrdd y Loteri a derbyniwyd grant o £300,000. Yr oeddynt yn llwyddiannus hefyd yn eu cais am £25,000 oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, i ddatblygu gwefan a rhwydwaith cyfathrebu Cymru gyfan
- Gwnaeth Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du gais llwyddiannus i Gysylltu Cymunedau yng nghategori rhwydweithio
- Mewn cyfarfod gyda CRE Cymru, cytunodd Black and Asian Women Step Out (BAWSO), sef lloches trais yn y cartref, i'w sefydlu eu hunain fel carfan gefnogi Cymru gyfan. Byddai hyn yn eu galluogi i sefydlu rhwydweithiau trwy ddefnyddio gwasanaethau rhyngrwyd mewn caffis – a chyflwyno cais drwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd
- Bu Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) yn hynod lwyddiannus yn denu adnoddau: derbyniodd grant o £24,000 oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol ac fe lwyddodd ei chais i'r Swyddfa Gartref dan gynllun Cysylltu Cymunedau. Mae'r garfan wedi sefydlu swyddfa, a phenodi staff i gefnogi prosiect iechyd, gyda nawdd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol; hefyd sefydlodd Bwyllgor Datblygu Economaidd, eto gyda nawdd oddi wrth y Cynulliad; a phrosiect Hawl i Bleidleisio, hefyd wedi'i ariannu gan y Cynulliad.



© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Gorffennaf 2001. ISBN 1 85442 238 3